



Cyfyngiadau Ychwanegol

1 & 3 Trem Rhaeadr a 27, 29, 31, 33 Maes Cwyfan

Mae ein cartrefi yn Nhrem Rhaeadr a Maes Cwyfan, Dyserth wedi eu hadeiladu ar ddatblygiad newydd. Mae'r datblygwr wedi cyflwyno rhai cyfyngiadau ychwanegol i gynnal ei ymddangosiad.

Gweler y rhestr isod am y prif gyfyngiadau, a fydd yn ychwanegol i delerau ac amodau eich cytundeb tenantiaeth.

- Ni ddylid codi unrhyw strwythurau ar unrhyw ran o unrhyw eiddo, gan gynnwys y gofodau parcio.
- Ni ddylid codi unrhyw gatiâu ychwanegol, pyst gatiâu, ffensys, sgriniau, waliau na chloddiau ar unrhyw eiddo.
- Ni ddylid defnyddio unrhyw eiddo ar gyfer unrhyw fath o waith na busnes (gan gynnwys cynnal a chadw cerbydau ar sail fasnachol) ar wahân i waith swyddfa yn y cartref.
- Ni ddylid parcio unrhyw gychod, carafanau, ôl-gerbydau na cherbydau nwyddau trwm sy'n fwy na 1000kg o ran pwysau wrth unrhyw eiddo.
- Ni ddylai'r planhigion a ddarperir gael eu tynnu na'u difrodi ac eithrio am resymau cynnal a chadw.
- Gellir cadw nifer resymol o anifeiliaid anwes yn yr eiddo, cyn belled nad ydynt yn achosi unrhyw niwsans i breswylwyr eraill, ac ni chaniateir bridio masnachol.
- Ni ddylid gosod unrhyw ddysglau lloeren nac erialau ychwanegol i ddrychiadau blaen yr eiddo.
- Ni ddylid gosod dillad i'w sychu o flaen yr eiddo, ac ni ddylid storio nwyddau na biniau gwastraff mewn lleoliadau syddi'w gweld o rannau eraill y datblygiad ac eithrio ar ddiwrnod casglu.

I gael rhagor o wybodaeth am y cyfyngiadau hyn a'n telerau ac amodau, cysylltwch â ni ar 01824 706000 neu e-bostiwch tai@sirddinbych.gov.uk.

.

YMWADIAD

Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu a chyhoeddi a gallai fod yn destun newid. Mae'r manylion ar gyfer arweiniad cyffredinol yn unig ac fe allant gael eu diwygio. Mae Tai Sir Ddinbych yn cadw'r hawl i wneud addasiadau i'r wybodaeth hon heb roi rhybudd ymlaen llaw. Cyngorhir chi i wirio'r wybodaeth hon gyda Thai Sir Ddinbych..